

Grantiau Troseddau Casineb – Hydref 2018

Derbyniodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru £5,000 gan Lywodraeth Cymru i'w wario ar Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2018. Gweithiodd SCHTh gyda PACT i rannu'r nawdd i nifer o sefydliadau trydydd sector lleol. Ymgeisiodd y sefydliadau am y nawdd er mwyn cynnal digwyddiadau i nodi Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Ar ben hyn, defnyddiodd y CHTh y nawdd i brynu deunydd cyhoeddusrwydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Defnyddiwyd y deunydd yn uniongyrchol gan y CHTh, ynghyd â chael ei rannu gyda phartneriaid a'r prosiectau a ariannwyd.

Mae'r wybodaeth a geir isod yn dangos y sefydliadau a lwyddodd yn eu ceisiadau gan dderbyn nawdd. Dangosir hefyd lle wnaeth y SCHTh ddefnyddio'r nawdd yn uniongyrchol.

Sefydliad	Swm	Digwyddiad
Comunidade da Lingua Portuguesa (CLPW)	£ 300.00	Codi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb o fewn y gymuned Bortiwgalaid gan gynnwys gweithdy troseddau casineb.
Enfys (Cymdeithas Heddlu Hoyw Gogledd Cymru)	£ 500.00	Lifrai ar gyfer cerbyd cronfa heddlu i hyrwyddo'r neges atal troseddau casineb. Ymddangosodd y car mewn twrnamaint pêl droed ar 20 Hydref (trefnwyd y digwyddiad gan Glwb Pêl Droed Belle Vue).
Cymdeithas Dai Clwyd Alyn	£ 168.99	Tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol i roi hyfforddiant i ymarferwyr rheng flaen ynghylch deall troseddau casineb.
AVOW	£ 414.50	Darparu 2 sesiwn ymwybyddiaeth troseddau casineb – pwyllgorau amrywiol, Wrecsam
Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	£1,000.00	Darparu 4 sesiwn hanner diwrnod mewn ysgolion ar Ynys Môn, Conwy a Sir y Fflint
Clybiau Ieuentid Cylch Llangefni	£ 480.51	Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb mewn clybiau ieuentid yng nghylch Llangefni yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)	£ 990.00	Darlleniadau radio ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Cynorthwyir gan Brifysgol Glyndŵr.
ITECH Wrecsam	£ 446.77	Gweithio gyda phobl ifanc i ledaenu'r neges o ymwybyddiaeth am droseddau casineb ledled cymuned ehangach Wrecsam.
Canolfan Cyngori Ynys Môn	£1,500.00	Sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda phobl anabl.
Taflenni x 4,000	£ 384.00	Argraffu deunydd cyhoeddusrwydd

Cyfanswm Gwariant y Cyfnod	£6,184.77	
Cyfanswm Grant Llywodraeth Cymru	£5,000.00	